# ADRODDIADAU YMGYSYLLTIAD CYHOEDDUS TEITHIO LLESOL CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR TREF PEN-Y-BONT AR OGWR – A48



Chwefror 2025

## CYNNWYS

**1.0 Cyflwyniad**……………………………………………………………………………..………………4

1.1 Trosolwg o’r Cynllun …………………………………………….............….………………4

1.2 Amcanion y cynllun……......…………………….………………………………......…………...4

**2.0 Crynodeb o’r Ymgysylltu â’r Cyhoedd**…………………………………………….............6

2.1 Dulliau Hyrwyddo……………………………………………………………………......…...…...6

2.2 C1: Pa mor aml ydych chi’n cerdded neu feicio wrth deithio bob dydd?............................8

2.3 C2: Pa anawsterau sydd yna o ran cerdded neu feicio yn eich ardal chi?........................10

2.4 C3: A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio yn amlach nag yr ydych chi’n ei wneud ar hyn o bryd?..................................................................................................12

2.5 C4: A ydych chi'n cefnogi'r cynllun?...................................................................................13

**3.0 Casgliad**…………………………………………………………....……………………………16

3.1 Beth sy’n digwydd nesaf?...................................................................................................16

**4.0 Atodiadau**……………………………………………………………..……………….…………18

Atodiad A: Copi o arolwg Tref Pen-y-bont ar Ogwr...........................…………………….……18

## RHESTR FFIGURAU

Ffigwr 1: Map yn amlinellu ffin y safle a’r gwaith teithio llesol arfaethedig..........………………………5

Ffigwr 2. Posteri Hysbysebu a ddefnyddiwyd ar gyfer y digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb….…7

Ffigwr 3. Siart colofn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 1...................…………………9

Ffigwr 4. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 1…....................………………………9

Ffigwr 5. Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2…..........................……11

Ffigwr 6. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2….......................................…………11

Ffigwr 7. Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3…................………12

Ffigwr 8: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3…...................................……………13

Ffigwr 9: Siart golofn mewn clwstwr yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4…..........................…14

Ffigwr 10. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4….............................................……15

## RHESTR TABLAU

Tabl 1. Canlyniadau cwestiwn arolwg 1……………………………………………………………………....8

Tabl 2. Canlyniadau cwestiwn arolwg 2………………………………………………………………..……10

Tabl 3. Canlyniadau cwestiwn arolwg 3……………………………………………………………….….12

Tabl 4. Canlyniadau cwestiwn arolwg 4……………………………………………………………….….13

# 1.0 CYFLWYNIAD

1.0.1 Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliannau gwaith ymgysylltu cymunedol yr ymgymerwyd ag ef yn ddiweddar fel rhan o’r cynlluniau teithio llesol ar hyd yr A48 rhwng cyffordd Ffordd Hernston a chylchfan Heol Ewenni. Mae’r adroddiad yn dangos canlyniadau digwyddiad ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 18fed mis Medi, ac arolwg ar-lein lle rhoddwyd y cyfle i breswylwyr gael dweud eu dweud ynghylch y cynlluniau teithio llesol yr A48 presennol. Gwnaed pob gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg.

1.0.2 Mae’r adrannau canlynol yn arddangos y cynlluniau ar gyfer teithio llesol ar hyd yr A48, a ddangoswyd i breswylwyr wyneb yn wyneb ac ar-lein, a byddant yn amlinellu amcanion allweddol cynlluniau o’r fath. Bydd Pennod 2.0 yn cyflwyno deilliannau’r sesiwn ymgysylltu, gan grynhoi canlyniadau’r arolwg a gynhaliwyd yn ystod y digwyddiad cymunedol wyneb yn wyneb ac a wnaed ar gael ar-lein, a dadansoddi’r canlyniadau cyfunol er mwyn penderfynu ar gefnogaeth y cyhoedd ar gyfer y cynlluniau arfaethedig. Bydd Pennod 3.0 yn darparu casgliad i ganfyddiadau’r adroddiad ac yn amlinellu’r camau nesaf ar gyfer y cynllun teithio llesol.


## 1.1 TROSOLWG O’R CYNLLUN

1.1.1 Cyflwynwyd Ffigwr 1 (gweler tudalen 5) i breswylwyr yn ystod y digwyddiad cymunedol wyneb yn wyneb a chafodd ei atodi i’r arolwg ar-lein yn ogystal. Mae’r map yn amlinellu safle’r cynlluniau ar gyfer teithio llesol ar hyd yr A48, rhwng cyffordd Ffordd Hernston a chylchfan Heol Ewenni, gan gynnwys seilwaith teithio llesol ychwanegol a gwelliannau i’r llwybr presennol.

## 1.2 AMCANION Y CYNLLUN

1.2.1 Amcanion cynllun teithio llesol yr A48, fel y’u hamlinellir gan y WelTAG yw :

- Darparu llwybr teithio iach sy’n cydymffurfio’n llawn gyda chanllawiau a safonau cyfredol, gan gynnwys rhai a nodwyd yn y Ddeddf Teithio Llesol (Cymru)(2013), erbyn Mawrth 2026.
- Rhoi ailddyluniad y mannau croesi ar waith yng nghyffordd Ffordd Hernston a chyffordd Heol Ewenni, gan ddarparu dull mwy diogel a chydlynus o deithio drwy’r ardal gan ddefnyddio teithio llesol, a chyflawni sgôr archwiliad llwybr teithio llesol o dros 80%.
- Gwella cysylltedd rhwng Cylchfan Cwrt Picton a Chylchfan Heol Ewenni (Ysgol Brynteg) drwy barhau gyda INM-BR-45, ac yn ei dro, lleihau nifer y bobl sy’n cerdded neu feicio llai nag unwaith y pythefnos o 15% (a sefydlwyd yn yr arolwg ymgysylltu â’r cyhoedd) i 8% erbyn 2027.




***Ffigwr 1. Map a gyflwynwyd i breswylwyr yn ystod y digwyddiad ymgysylltu cymunedol wyneb yn wyneb ac fel rhan o'r arolwg ar-lein.*** **Mae'r map yn amlinellu ffiniau'r safle gyda'r holl waith arfaethedig i'r llwybr rhwng cyffordd Ffordd Hernston a chylchfan Heol Ewenni.**

# 2.0 CRYNODEB O'R YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD

2.0.1 Mae'r bennod hon yn cynnwys canlyniadau'r sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb a'r arolwg ar-lein a gynhaliwyd fel rhan o'r cynlluniau teithio llesol ar hyd yr A48. Gan fod yr un arolwg ar gael i breswylwyr yn ystod y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ddiweddarach, mae'r ddau set o ganlyniadau wedi cael eu cyfuno ar gyfer eu dadansoddi isod. Cwblhawyd yr arolwg gan gyfanswm o 27 o breswylwyr.

2.0.2 Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno ac yn dadansoddi canlyniadau'r arolwg yn ôl trefn y cwestiwn, gan ddefnyddio tablau a siartiau colofn clwstwr er mwyn enghreifftio canlyniadau pob arolwg (wyneb yn wyneb ac ar-lein), a siartiau cylch er mwyn dangos y canlyniadau cyfunol a'r deilliant ar gyfer pob cwestiwn mewn fformat cynhwysfawr.

## 2.1 DULLIAU O HYRWYDDO

2.1.1 Mabwysiadodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr strategaethau niferus er mwyn hyrwyddo'r sesiwn ymgysylltu cymunedol gan sicrhau bod cymaint â phosib o breswylwyr wedi cymryd rhan ynddo. Rhoddwyd posteri hyrwyddo (Ffigwr 2) mewn ardaloedd lle mae llawer o draffig o fewn Tref Pen-y-bont ar Ogwr a'u postio ar-lein cyn y digwyddiad. Yn ogystal, fe wnaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr hysbysebu drwy'r cyfryngau cymdeithasol, postiadau bwletin wythnosol i breswylwyr, ac estyn allan drwy grwpiau rhanddeiliaid perthnasol.

2.1.2 Cynhaliwyd y sesiwn ymgysylltu cymunedol ar ddydd Mercher 18fed o Fedi 2024, 4:30pm-7pm. Er mwyn galluogi i'r nifer mwyaf posib o breswylwyr i fynychu, trefnwyd y sesiwn fel ei fod yn cael ei gynnal oddi allan i oriau gwaith arferol, gan fabwysiadu natur 'galw i mewn' gyda chyflwyniad byr ar y dechrau, a chaniatáu i breswylwyr alw i mewn ar yr adeg oedd fwyaf cyfleus iddynt.

2.1.3 Cyn i breswylwyr adael y sesiwn, gofynnwyd iddynt gwblhau arolwg byr, a wnaed ar gael ar ffurf copïau papur ac ar gael i'w cyrchu drwy god QR, ynghylch eu meddyliau am y cynllun. Gellir gweld y cwestiynau a'r ymatebion yn y tablau isod.

2.1.4 Yn dilyn y sesiwn ymgysylltu â'r gymuned, hysbysebwyd yr arolwg drwy'r cyfryngau cymdeithasol a phostiadau bwletin i breswylwyr mewn ymgais i ymgysylltu gyda phreswylwyr nad oeddent wedi mynychu'r digwyddiad wyneb yn wyneb. Ymgymerwyd â'r holl waith hyrwyddo yn Gymraeg a'r Saesneg.




***Ffigwr 2. Enghreifftiau o boster (yn Gymraeg a Saesneg) a ddosbarthwyd mewn ardaloedd traffig uchel ar hyd a lled Tref Pen-y-bont ar Ogwr er mwyn hysbysebu'r digwyddiad ymgysylltu teithio iach wyneb yn wyneb, ac yn ddiweddarach, yr arolwg ar-lein a wnaed ar gael am bythefnos wedi'r digwyddiad wyneb yn wyneb.***

## 2.2 C1: PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO WRTH DEITHIO BOB DYDD?

2.2.1 Nod cwestiwn cyntaf yr arolwg yw mesur y defnydd cyfredol o deithio llesol a wneir gan breswylwyr Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn rhan o'u teithio dyddiol i'r gwaith. Mae mesur hyn yn galluogi i amcangyfrifon gael eu gwneud o'r galw presennol am seilwaith teithio llesol gwell, y potensial ar gyfer cynyddu teithio llesol, a chymariaethau lefel defnyddio yn y dyfodol er mwyn mesur effeithiolrwydd y cynllun teithio llesol.

2.2.2 Mae canlyniadau'r arolwg (Tabl 1) yn dangos bod 30% o bobl yn cerdded neu'n beicio 7 diwrnod yr wythnos fel rhan o'u teithio dyddiol, ac mae 30% pellach yn gwneud hynny 2-4 diwrnod yr wythnos. Mae 11% pellach ac 11% wedi dynodi eu bod yn cerdded i'r gwaith neu feicio 5-6 diwrnod yr wythnos ac unwaith yr wythnos, yn y drefn honno. Mae canlyniadau o'r fath yn dangos bod cyfran sylweddol o'r preswylwyr a gwblhaodd yr arolwg yn defnyddio teithio llesol yn aml fel rhan o'u ffordd o deithio dyddiol.


**C1. PA MOR AML YDYCH CHI'N CERDDED NEU FEICIO WRTH DEITHIO BOB DYDD?**

| | 7 diwrnod yr wythnos | 5-6 diwrnod yr wythnos | 2-4 diwrnod yr wythnos | Unwaith yr wythnos | Unwaith bob pythefnos | Unwaith y mis | Llai aml | Byth | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| AROLWG WYNEB YN WYNEB | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 |
| AROLWG AR-LEIN | 6 | 3 | 8 | 3 | 1 | 1 | 1 | 2 | 25 |
| **CANLYNIADAU CANLYNIADAU** | **8** | **3** | **8** | **3** | **1** | **1** | **1** | **2** | **27** |

***Tabl 1. Canlyniadau arolwg cwestiwn 1, "Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu'n beicio wrth deithio bob dydd?", wedi'u rhannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "canlyniadau cyfunol".***


2.2.3 Dywedodd cyfanswm o 22 o blith 27 o gyfranogwyr eu bod yn cerdded neu feicio o leiaf un waith yr wythnos wrth deithio bob dydd. Mae hyn yn dynodi bod unrhyw welliannau a wneir yn y dyfodol i'r seilwaith teithio llesol o fewn Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn debygol o gael traweffaith ar nifer sylweddol o bobl.

2.2.4 Er gwaethaf hyn, dywedodd 7% o breswylwyr nad oeddent byth yn cerdded nac yn beicio wrth deithio bob dydd. Mae'r ffigwr hwn yn bwysig gan y bydd y grŵp penodol hwn o breswylwyr yn allweddol wrth ddarparu gwybodaeth am y rhesymau dros hyn yn y cwestiwn nesaf.




***Ffigwr 3: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg, "Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu'n beicio wrth deithio bob dydd?", wedi'i rannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb" (glas tywyll), "arolwg ar-lein" (oren), a "canlyniadau cyfunol" (gwyrdd).***

2.2.5 Mae Ffigwr 3 yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg, wedi'i rannu gan yr atebion a dderbyniwyd yn ystod yr arolwg wyneb yn wyneb, yr arolwg ar-lein a ffigwr cyfunol er mwyn helpu i gael golwg ar y canlyniadau yn eu cyfanrwydd. Mae Ffigwr 4 yn dangos canlyniadau cyfunol mewn siart gylch, gan ddangos yn eglur y lefel uchel o deithio llesol ymysg preswylwyr Tref Pen-y-bont ar Ogwr.




***Ffigwr 4. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn 1 yr arolwg, "Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio wrth deithio bob dydd?", gan arddangos y categorïau "7 diwrnod yr wythnos" (gwyrdd), "5-6 diwrnod yr wythnos" (gwyrdd llachar). "2-4 diwrnod yr wythnos" (glas tywyll), "unwaith yr wythnos" (glas golau), "unwaith bob pythefnos" (porffor tywyll), "unwaith y mis" (porffor), "llai aml" (porffor golau), a "byth" (pinc).***

## 2.3 C2: PA ANAWSTERAU SYDD YNA O RAN CERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL CHI?


2.3.1 Wrth ystyried canlyniadau y cwestiwn arolwg cyntaf, mae’r ail gwestiwn yn mesur yr anawsterau mae’r preswylwyr yn ei gredu sy’n eu rhwystro rhag cerdded a beicio mwy wrth deithio bob dydd. Mae’r canlyniadau’n dangos mai diffyg croesfannau diogel (35%) yw’r anhawster mwyaf cyffredin sy’n cael ei wynebu, wedi’i ddilyn gan ddiffyg cyfleusterau teithio llesol (33%), a’i fod yn cymryd gormod o amser (14%), ac anawsterau eraill nad ydynt yn cael eu rhestru yn yr arolwg (12%). Cyfleuster (5%) a rhesymau iechyd (2%) yw anawsterau lleiaf cyffredin a wynebir.

2.3.2 Dylid nodi na ddarparwyd blwch ticio i restru anawsterau eraill i ymatebwyr ar-lein fel rhan o’r cwestiwn hwn, ac yn lle hynny, fe’u darparwyd gyda chyfle i nodi unrhyw sylwadau pellach ar ddiwedd yr arolwg.

| **C2. PA ANAWSTERAU SYDD YNA O RAN CERDDED NEU FEICIO YN EICH ARDAL CHI? (TICIWCH BOB UN SY'N BERTHNASOL)** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhesymau iechyd | Cyfleus | Croesfannau diogel | Prinder cyfleusterau teithio llesol | Cymryd gormod o amser | Arall |
| AROLWG AR-LEIN | 0 | 0 | 2 | 2 | 1 | 0 |
| AROLWG AR-LEIN | 1 | 2 | 13 | 12 | 5 | 5 |
| **CANLYNIADAU CYFUNOL** | **1** | **2** | **15** | **14** | **6** | **5** |


***Tabl 2. Canlyniadau cwestiwn arolwg 2, “Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?”, wedi eu rhannu i’r categorïau “arolwg wyneb yn wyneb”, “arolwg ar-lein”, a “canlyniadau cyfunol”.***

2.3.3 Mae’r canlyniadau a ddangosir yn Nhabl 2 yn dangos bod amrywiaeth o ffactorau yn rhwystro preswylwyr Tref Pen-y-bont ar Ogwr rhag cerdded a beicio mwy wrth deithio o ddydd i ddydd. Mae’r detholiad o ddiffyg croesfannau diogel a diffyg cyfleusterau teithio llesol fel y prif anawsterau yn dangos bod y cynlluniau arfaethedig ar gyfer llwybr teithio iach yr A48, a gynigiwyd yn yr arolwg wyneb yn wyneb ac ar-lein, yn debygol o gael traweffaith bositif ac annog lefelau cynyddol o gerdded a beicio yn yr ardal.




***Ffigwr 5: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2, "Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?", wedi eu rhannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb" (glas tywyll), "arolwg ar-lein" (oren), a "canlyniadau cyfunol" (gwyrdd).***

2.3.4 Mae Ffigwr 5 yn cynrychioli canlyniadau cwestiwn 2, gan fod o gymorth i weld y prif anawsterau i deithio llesol a ddewiswyd yn yr arolygon wyneb yn wyneb, ar-lein a chyfunol. Mae Ffigwr 6 yn arddangos y canlyniadau arolwg cyfunol ar gyfer cwestiwn 2, gan ddangos bod diffyg croesfannau diogel (35%), diffyg cyfleusterau teithio iach (33%), a'i fod yn cymryd gormod o amser (14%) yw'r anawsterau mwyaf cyffredin sy'n wynebu preswylwyr Tref Pen-y-bont ar Ogwr.




***Ffigwr 6. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 2, "Pa anawsterau presennol sydd yna gyda cherdded neu feicio yn eich ardal?", gan arddangos y categorïau "rhesymau iechyd" (gwyrdd), "cyfleuster" (gwyrdd llachar), "diffyg croesfannau diogel" (glas tywyll), "diffyg cyfleusterau teithio iach" (glas golau), "cymryd gormod o amser" (porffor), ac "eraill" (pinc).***


## 2.4 C3: A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG I GERDDED NEU FEICIO YN AMLACH NAG YR YDYCH CHI'N EI WNEUD AR HYN O BRYD?

2.4.1 Ar ôl amlygu'r anawsterau cyfredol a wynebir wrth gerdded a beicio, mae'r arolwg yn gofyn i'r preswylwyr a fyddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy na'r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd. Mae canlyniadau yr arolwg cyfunol yn dangos bod 50% o breswylwyr a gwblhaodd yr arolwg yn dweud y byddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy, gan adael 50% a ddywedodd na fyddai yn annog hyn.

| C3: A FYDD Y CYNLLUN HWN YN EICH ANNOG I GERDDED NEU FEICIO MWY NA'R HYN RYDYCH CHI'N EI WNEUD AR HYN O BRYD? | | |
|---|---|---|
| | **Ydw** | **Na** |
| AROLWG WYNEB YN WYNEB | 1 | 1 |
| AROLWG AR-LEIN | 12 | 12 |
| **CANLYNIADAU CYFUNOL** | **13** | **13** |


***Tabl 3. Canlyniadau cwestiwn arolwg 3,"A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd? wedi ei rannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "chanlyniadau cyfunol".***

2.4.2 Mae'r canlyniadau a arddangosir yn Nhabl 3 yn asesiad eglur o'r farn gyhoeddus ynghylch y cynlluniau ar gyfer teithio llesol yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn dangos y byddai'r cynllun yn annog hanner y preswylwyr lleol i gynyddu eu lefel o deithio iach. Mae'r asesiad hwn yn unol gyda chanlyniadau'r arolwg a gyflwynwyd ac a ddadansoddwyd yn Adrannau 2.2 a 2.3. Dylid nodi, fodd bynnag bod 50% o breswylwyr yn dweud na fyddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy na'r hyn maent yn ei wneud ar hyn o bryd.




***Ffigwr 7. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3,"A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?" wedi ei rannu i "bydd" (glas), a "na fydd" (coch).***

2.4.3 Mae Ffigwr 7 yn cynrychioli canlyniadau cwestiwn 3 wedi ei rannu gan y math o arolwg (ar-lein, mewn person, a chyfunol), gan ddangos bod 50% o ymatebwyr wyneb yn wyneb ac ar-lein wedi dweud y byddai'r cynllun yn eu hannog hwy i gynyddu eu lefel o deithio iach. Mae Ffigwr 8 yn cynrychioli'r canlyniadau cyffredinol cwestiwn 3, gan ddangos yr un rhaniad o 50%.




***Ffigwr 8. Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 3,"A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio mwy na'r hyn rydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?" wedi ei rannu i "bydd" (glas), a "na fydd" (coch).***

## 2.5 C4: A YDYCH CHI'N CEFNOGI'R CYNLLUN?

2.5.1 Mae'r cwestiwn arolwg olaf yn gofyn i breswylwyr a oedden nhw'n gefnogol i'r cynllun a gyflwynwyd iddynt hwy, er mwyn cael syniad uniongyrchol o gefnogaeth gan breswylwyr i'r cynllun teithio llesol ar hyd yr A48. Dewisodd 56% o'r preswylwyr a gwblhaodd yr arolwg ddweud ydw, gyda 22% yn dewis nac ydw, a 22% heb benderfynu.


| **C4: YDYCH CHI'N CEFNOGI'R CYNLLUN?** | | | |
|---|---|---|---|
| | **Ydw** | **Na** | **HEB BENDERFYNU** |
| AROLWG WYNEB YN WYNEB | 2 | 0 | 0 |
| AROLWG AR-LEIN | 13 | 6 | 6 |
| **CANLYNIADAU CYFUNOL** | **15** | **6** | **6** |

***Tabl 1. Canlyniadau arolwg cwestiwn 4, "Ydych chi'n cefnogi'r cynllun?", wedi'u rhannu i'r categorïau "arolwg wyneb yn wyneb", "arolwg ar-lein", a "canlyniadau cyfunol".***

2.5.2 Mae'r canlyniadau a ddangosir yn Nhabl 4 yn nodi bod mwy o gefnogaeth o gynllun teithio iach yr A48, gan ddangos bod 56% o breswylwyr yn cefnogi'r cynllun tra dim ond 50% a ddywedodd y byddai'n eu hannog i gerdded neu feicio mwy.


2.5.3 Wedi cwblhau'r cwestiwn olaf yma cafodd y preswylwyr wedyn eu darparu gyda chyfle i roi unrhyw sylwadau pellach oedd yn berthnasol i'r cynllun. Nododd dau breswyliwr eto ar ddiwedd yr arolwg y byddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr. Mynegodd nifer o breswylwyr yr angen am fesurau ychwanegol, gan gynnwys mwy o ffensys ger mannau croesi cylchfan Heol Ewenni, croesfannau pelican mewn sawl lle ar hyd yr A48, a newid i'r cyfyngiad cyflymder ar ffordd yr A48.

2.5.4 Mae'r sylwadau ychwanegol a wnaed ar ddiwedd yr arolwg yn dynodi bod preswylwyr o'r farn y gellid cymryd camau pellach er mwyn gwella seilwaith teithio llesol, profiad y defnyddiwr a diogelwch ar hyd yr A48. Bydd y sylwadau hyn yn cael eu hadolygu a'u defnyddio i fod yn sail i drafodaethau ac ystyriaethau yn y dyfodol ynghylch teithio llesol ar hyd yr A48.




***Ffigwr 9: Siart yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4, "Ydych chi'n cefnogi'r cynllun?", wedi'u rhannu i'r categorïau "ydw" (glas), "nac ydw" (coch), a "heb benderfynu" (oren).***

2.5.5 Mae Ffigwr 9 yn cynrychioli canlyniadau cwestiwn terfynol yr arolwg wedi eu rhannu gan y math o arolwg (ar-lein, mewn person, a chyfunol), gan amlygu bod 100% o ymatebwyr wyneb yn wyneb yn dweud eu bod yn cefnogi'r cynllun, tra dim ond 52% o ymatebwyr ar-lein a fynegodd yr un gefnogaeth. Mae Ffigwr 10 yn cynrychioli canlyniadau cyffredinol y cwestiwn, gan gadarnhau bod y mwyafrif o breswylwyr (56%) a gwblhaodd yr arolygon yn cefnogi cynllun teithio llesol yr A48.




***Ffigwr 10: Siart gylch yn dangos canlyniadau cwestiwn arolwg 4, "Ydych chi'n cefnogi'r cynllun?", wedi'u rhannu i'r categorïau "ydw" (glas), "nac ydw" (coch), a "heb benderfynu" (oren).***

## 3.0 CASGLIAD

3.0.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno deilliannau gwaith ymgysylltu cymunedol yr ymgymerwyd ag ef yn ddiweddar fel rhan o'r cynlluniau teithio llesol ar hyd yr A48 rhwng Cyffordd Ffordd Hernston a Chylchfan Heol Ewenni. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein ac mewn sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb, a all fod wedi arwain at rhai ymatebion wedi eu dyblygu. Fodd bynnag, fe wnaeth yr arolwg arwain at beth cyfranogiad cymunedol, gyda barn yn cael ei mynegi o blaid ac yn erbyn y cynllun fel ei gilydd.

3.0.2 Mae'r canlyniadau arolwg cyfunol o'r ymgysylltu yn dangos bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn cerdded neu'n beicio 7 diwrnod yr wythnos fel rhan o'u teithio o ddydd i ddydd (30%), wedi'i ddilyn gan gerdded a beicio 2-4 diwrnod (30%), 5-6% (11%), ac unwaith yr wythnos (11%) gan ddangos bod cyfran sylweddol yn defnyddio teithio llesol yn aml.

3.0.3 Er gwaethaf y lefel uchel yma o ddefnydd, nododd y preswylwyr hefyd bod amrywiaeth o anawsterau yn eu rhwystro rhag defnyddio mwy o deithio llesol fel rhan o'u teithio o ddydd i ddydd. Amlygodd y canlyniadau ddiffyg croesfannau diogel (35%) yw'r anhawster mwyaf cyffredin sy'n cael ei wynebu, wedi'i ddilyn gan ddiffyg cyfleusterau teithio llesol (33%), a'i fod yn cymryd gormod o amser (14%). Mae'r detholiad o anawsterau o'r fath fel y rhai mwyaf cyffredin yn awgrymu bod y cynlluniau arfaethedig ar gyfer llwybrau teithio llesol ychwanegol a seilwaith yn debygol o gael traweffaith bositif ac annog mwy o gerdded a beicio yn yr ardal, fodd bynnag, mae'r angen am ystyried newidiadau i'r cynllun er mwyn mynd i'r afael gydag anawsterau o'r fath mewn ffordd well yn parhau.

3.0.4 O ran cefnogaeth gyffredinol i'r cynllun, dywedodd, 50% o breswylwyr y byddai'r cynlluniau yn eu hannog hwy i gerdded a beicio mwy a dywedodd 56% eu bod yn cefnogi'r cynlluniau. Mae'r canlyniadau yn dangos bod y mwyafrif o breswylwyr yn cefnogi'r cynllun ar gyfer teithio llesol yng Nghwm Llynfi. Dylid nodi, fodd bynnag bod 50% o breswylwyr yn dweud na fyddai'r cynllun yn eu hannog i gerdded a beicio mwy, a bod 44% naill ai ddim yn cefnogi'r cynllun neu heb benderfynu.

3.0.5 Mae'r crynodeb hwn yn adlewyrchu adborth y gymuned ac mae'n darparu mewnwelediadau gwerthfawr i'r heriau a'r safbwyntiau sydd angen eu hystyried wrth werthuso'r cynllun arfaethedig.

### 3.1 BETH SY'N DIGWYDD NESAF?

3.1.1 Casglwyd llawer o adborth positif o'r arolygon yn seiliedig ar y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb ac ar-lein. Roedd y sesiwn ymgysylltu wyneb yn wyneb yn cynnig cyfle i'r mynychwyr ehangu eu safbwyntiau a'u barn ynghylch y cynnig, cyfle nad oedd yr arolygon yn seiliedig ar yr holiaduron yn ei gynnig. Mae'r farn a'r safbwyntiau a fynegir, yr hoffterau a ddatganwyd wedi cael eu cymryd i ystyriaeth wrth adolygu, lle maent yn berthnasol, amcanion y cynllun, deilliannau'r cynllun, a lle mae'n ymarferol, maent wedi cyfrannu at ddyluniad gwell.

3.1.2 Mae'r Rhaglen Teithio Llesol yn brosiect parhaus dros sawl blwyddyn sy'n cael ei ariannu drwy Lywodraeth Cymru ac yn ddibynnol ar broses ymgeisio am grant blynyddol. O ganlyniad, ni ellir darparu llwybrau sengl, yn arbennig rhai sydd yn hir iawn, gam wrth gam oherwydd yr ariannu.

Nid yw sesiynau ymgysylltu o reidrwydd yn arwain at gynllun yn cael ei ariannu yn y flwyddyn y mae'r cynllun yn cael ei ddatblygu. Mae'r budd o ddatblygu cynlluniau ac ymgysylltu gyda chymunedau yn eu cylch yn rhan hanfodol o broses gynllunio ymlaen y cyngor ac yn bodloni gofynion datblygu'r cynllun a ddiffinnir gan Lywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru.

3.1.3 Mae ceisiadau ar gyfer cynlluniau'n cael eu cyflwyno'n flynyddol ac yn cael eu cymeradwyo ar y sail eu bod yn cael eu darparu yn ystod un flwyddyn ariannol; dyw hi ddim bob amser yn bosib i brosiectau sy'n mynd drwy'r broses dichonolrwydd, creu cynlluniau manwl a'u rhoi ar waith o fewn yr amserlenni a ganiateir. Y Rhaglen Cynllun Llesol yw'r ymrwymiad teithio strategol cyfredol mwyaf ac fe'i hystyrir yn hanfodol er mwyn annog 'newid dulliau teithio' o ddibynnu ar gerbydau modur preifat at ddulliau cynaliadwy megis cerdded a beicio.

3.1.4 Mae cynlluniau teithio llesol yn cyfrif am y rhan helaethaf o raglen teithio strategol y cyngor. Mae ymgysylltu gyda'r cyhoedd fel rhan o'r rhaglen datblygu cynllun yn sail i broses gwneud penderfyniadau'r cabinet.

3.1.5 Ar 10fed o Ragfyr 2024 cymeradwyodd y cabinet adroddiad ar brosiectau teithio strategol yn y fwrdeistref sirol, ac yn eu plith roedd llwybr teithio llesol yr A48, sydd ar hyn o bryd yn mynd drwy broses o waith paratoadol, a bydd yn gynllun creiddiol i'w gyflwyno ar gyfer ariannu teithio iach 2025-2026.

3.1.6 Rhoddir diweddariadau rheolaidd i aelodau ynghylch y cynllun, tra'n croesawu unrhyw sylwadau ychwanegol ac adborth a allai fod gan breswylwyr.

3.1.7 Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu'n ddwyieithog drwy wefan y cyngor.

# 4.0 ATODIADAU

## ATODIAD A: COPI O AROLWG TREF PEN-Y-BONT AR OGWR

### SESIWN YMGYSYLLTU CYMUNEDOL TREF PEN-Y-BONT AR OGWR

18/09/2024

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ymchwilio i gerdded a beicio yn Nhref Pen-y-bont ar Ogwr. Byddem wrth ein bodd yn clywed am eich profiadau gyda theithio llesol a'ch barn ar y newidiadau arfaethedig i'ch ardal chi. Diolch am eich amser, rydym yn gwerthfawrogi eich adborth yn fawr.

**Pa mor aml ydych chi'n cerdded neu feicio wrth deithio bob dydd?**

| Amlder | Ticiwch os gwelwch yn dda |
|---|---|
| 7 diwrnod yr wythnos | |
| 5-6 diwrnod yr wythnos | |
| 2-4 diwrnod yr wythnos | |
| Unwaith yr wythnos | |
| Unwaith bob pythefnos | |
| Unwaith y mis | |
| Llai aml | |
| Byth | |

## Pa anawsterau sydd yna o ran cerdded neu feicio yn eich ardal chi? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

| | |
|---|---|
| Rhesymau iechyd | |
| Cyfleustra | |
| Prinder croesfannau diogel | |
| Prinder cyfleusterau teithio llesol | |
| Cymryd gormod o amser | |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | |

## A fydd y cynllun hwn yn eich annog i gerdded neu feicio yn amlach nag yr ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

| **Ticiwch os gwelwch yn dda** | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb benderfynu |
| | | |

## A ydych chi'n cefnogi'r cynllun?

| **Ticiwch os gwelwch yn dda** | | |
|---|---|---|
| Ydw | Nac ydw | Heb benderfynu |
| | | |
| Sylwadau pellach/ychwanegol: | | |